


Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

2020/2021

# Adroddiad Sefydliadol #6

**Y cyfnod dan sylw: 1 Gorffennaf – 30 Medi 2020**

Cwrs yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd yng ngwanwyn 2020

# Cynnwys

**Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Mewnwelediadau**
Diweddariad COVID-19 .......................................................................... 3
Uchafbwyntiau Sefydliadol, Gweithgaredd a Gweithredol ........................ 4

**Effaith Sefydliadol**
Y newid tymor hir y byddwn yn eu cynhyrchu i Gymru............................... 7

**Canlyniadau Sefydliadol**
Y newidiadau tymor canolig y byddwn yn eu cynhyrchu ar gyfer ein cleientiaid................................................................................................ 7

**Allbynnau Sefydliadol**
Sylw i darged sydd heb ei gyflawni *NEWYDD.......................................... 8
Prif Nodau Llwyddiant mewn perthynas â'n Colofnau Gweithgaredd ..... 10
Mesurau Llwyddiant mewn perthynas â'n Blaenoriaethau Gweithredu.... 13

**Gofynion cyllido ychwanegol Cyngor Celfyddydau Cymru**
Ymgysylltu â'n sector.................................................................................. 20

**Gwerthuso**
Gwersi Sefydliadol i'w Dysgu...................................................................... 21
Gwersi i'w Dysgu o'n Gweithgareddau .......................................................22

## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

- Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido Cyngor Celfyddydau Cymru** (sy'n canolbwyntio ar ein tri Mesur Llwyddiant Allweddol ac un eitem ychwanegol) ac ein **gofynion adrodd mewnol** ar y canlyniadau a'r effaith sefydliadol rydym yn gobeithio eu cyflawni, yn ogystal â'n **Nodau Llwyddiant gweithredol** a'n **Gwersi i'w Dysgu.**

- Mae'r targedau sydd wedi eu cynnwys ar **gyfer blwyddyn 2** (2020/2021) o 4 blynedd y Cynllun Strategol. Mae'r targedau yma'n cynrychioli ein huchelgeisiau, sydd yn gysylltiedig â'r prosiectau yn ein rhaglen gweithgaredd a gweithredoedd presennol a'n patrymau gwleidyddol, demograffig ac economaidd presennol. Mae rhai o'n prosiectau'n ddibynnol ar ffynonellau cyllid allanol, a bydd rhai'n cael eu haddasu neu'n troi'n annichonadwy yn ystod y broses ddatblygu. Bydd rhai prosiectau'n cael eu heffeithio gan ffactorau sydd y tu allan i'n rheolaeth uniongyrchol ni. Am y rhesymau hyn**, mae'r targedau hyn yn rhagolwg o sut fydd llwyddiant yn edrych ac mae'n bosib y cânt eu hadolygu'n rhesymegol.**

- Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn derbyn yr adroddiad hwn, ynghyd ag un arall ar lefel prosiect mwy manwl, sy'n canolbwyntio ar gynnydd misol tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a gwersi i'w dysgu o brosiectau. Gall y Bwrdd Rheoli wneud cais i weld y ddogfen hon yn ôl yr angen, ac mae'n bosib y byddant yn dewis gwneud hynny'n achlysurol fel arfer da.

- Mae'r **adroddiad hwn yn cynnwys targedau wedi eu diweddaru ar gyfer 2020/2021.** Gan ystyried ein cynnydd yn ystod blwyddyn 1 ochr yn ochr ag ansicrwydd ein rhaglen weithgaredd o ganlyniad i COVID-19, aethom ati i ganfod set newydd o Amcanion Sefydliadol ar gyfer blwyddyn 2. Yn ogystal, yn hytrach na chynnig cynnydd cronedig, yn yr adroddiad hwn rydym **yn hytrach wedi nodi eglurhad dros y targedau** sydd wedi eu haddasu.

# Diweddariad COVID-19

**Rydym yn dal i ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau i'n cynulleidfaoedd a'n hawduron ledled Cymru.**

Er gwaethaf y cyfyngiadau ar ryngweithio cymdeithasol, rydym wedi sicrhau bod pobl Cymru yn dal i allu ymwneud â gweithgareddau llenyddol. Cyflwynwyd gweithgareddau **Beirdd Plant Cymru** yn ddigidol wrth inni wahodd ysgolion i archebu gweithdai unigryw y byddai modd eu cynnal o ddiogelwch eu hystafelloedd dosbarth. Lansiwyd tair galwad, mewn partneriaeth â **Mind Casnewydd**, **Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru**, a **Celfyddydau Anabledd Cymru**, i ganfod artistiaid i ddarparu gweithgareddau wedi'u targedu ar gyfer ein cymunedau mwyaf agored i niwed a chymunedau sydd wedi'u gwthio i'r cyrion.

Rydym wedi cynllunio amrywiaeth o brosiectau i helpu awduron Cymru, yn enwedig y rheini sy'n gweithio'n llawrydd, i ddarparu gweithgareddau llenyddol cyffrous i gynulleidfaoedd creadigol a darllenwyr yng Nghymru. Yn ogystal â'r **20 prosiect** a gomisiynwyd gennym, aethom ati i greu partneriaeth â Dawns Cenedlaethol Cymru er mwyn darparu prosiect ffilm digidol a fyddai'n pontio'r celfyddydau, o'r enw **Plethu/Weave**. Yn sgil hyn, bu **16** o feirdd a dawnswyr yn defnyddio gwahanol ddulliau o edrych ar themâu o'u dewis, a hynny fesul pâr artistig.

Yn debyg i sawl sefydliad arall, rydym wedi gorfod addasu, treialu a phrofi dulliau gwahanol o weithio ar gyfer ein cynulleidfaoedd. Er bod hyn yn aml wedi bod yn heriol, rydym wedi achub ar gyfleoedd i edrych o'r newydd ar yr hyn rydym wedi bod yn ei gynhyrchu'n draddodiadol. Er enghraifft, llwyddodd ein **Rhaglen o Gyrsiau Rhithwir yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd** i roi cynnwys o ansawdd uchel i ddarpar awduron am gost isel. Gwerthwyd yr holl lefydd yn y rhan fwyaf o'r gweithdai o fewn ychydig ddiwrnodau i'w cyhoeddi, a chafodd awduron ar wahanol gamau yn eu gyrfaoedd gyfle i diwtora a rhannu'u gwybodaeth.

Roeddem yn hynod o falch o **Wobr Llyfr y Flwyddyn 2020** a llwyddiant y rhaglen gysylltiedig o ddigwyddiadau. Golygodd partneriaethau newydd, gan gynnwys gyda'r BBC, ein bod wedi cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a chafwyd y nifer uchaf o bleidleisiau erioed yng Ngwobr Barn y Bobl, a oedd yn cael ei threfnu gan y Wales Arts Review.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn dal i fod yn wydn ac yn dal i ymateb yn ystod cyfnod COVID-19, a llond llaw o enghreifftiau'n unig o'r hyn rydym wedi gallu'i ddarparu yw'r uchafbwyntiau uchod. Mae'r Adolygiad Sefydliadol hwn yn edrych yn fanwl ar ein cynnydd yn y misoedd diwethaf.



Visitor World Map at Tŷ Newydd Writing Centre

# Uchafbwyntiau

## Sefydliadol

- Parhaodd Llenyddiaeth Cymru i greu partneriaethau newydd a darparu gweithgareddau er gwaethaf pandemig COVID-19.
- Yn sgil Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2020, buom yn myfyrio am bwysigrwydd gweithio tuag at greu diwylliant llenyddol sy'n adlewyrchu **talentau Cymru a'n cymunedau gwerthfawr, amrywiol.**

## Gweithgareddau

- Cyflwynwyd seremoni lwyddiannus fel rhan o **Wobr Llyfr y Flwyddyn 2020**, a hynny drwy gyfres o raglenni ar BBC Radio Cymru a'r Arts Show ar BBC Radio Wales.
- 'Bàrd, File, Bardd' – tair cenedl yn cydweithio i greu barddoniaeth yn dathlu cysylltiadau diwylliannol Cymru, Iwerddon a'r Alban – cyflwynwyd y perfformiad cyntaf yn ddigidol gan roi llwyfan i **Fardd Cenedlaethol Cymru.**
- **Plethu/Weave –** cydweithio digidol i bontio'r celfyddydau mewn partneriaeth â Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru – cyflwynwyd y gwaith yn llwyddiannus. Mae'n cynnig amrywiaeth o ffilmiau sy'n cyfuno dawns a llenyddiaeth gan edrych ar themâu gwleidyddol-gymdeithasol fel y fasnach gaethweision dros yr Iwerydd a threftadaeth gymysg.
- Lansiwyd galwad am Gyfranogwyr Creadigol i wneud ceisiadau i ddarparu prosiectau fel rhan o gynllun Darn wrth Ddarn gan **Bridging the Gap,** mewn partneriaeth â **Mind Casnewydd.**
- Lansiwyd partneriaeth â Celfyddydau Gwirfoddol Cymru i chwilio am feirdd ym mhob cam yn eu gyrfaoedd, sy'n ysgrifennu yn Gymraeg neu'n Saesneg, i weithio gyda grwpiau celf drwy Gymru fel rhan o'r prosiect **Fy Nghyfnod Creadigol**.
- Bu'r **Children's Laureate Wales** yn cynnig gweithdai digidol i ysgolion gan dreialu model cyflawni newydd.




## Gweithredol

- Dewiswyd y prosiect Tir a Llên Cymreig fel un o 33 prosiect arloesol newydd a gyllidir o dan gynllun Clwstwr 2020, a hynny ar ôl **cais llwyddiannus i godi arian** a phroses ymgeisio drylwyr.
- Lluniwyd **Adroddiad Blynyddol 2019/2020** i adlewyrchu a dangos canlyniadau ac effaith Gweithgareddau a rhaglenni Gweithredol Llenyddiaeth Cymru ers lansio'r Cynllun Strategol.
- Dechreuodd cyfnod **ymgynghori** ffurfiol ar gyfer y **Rhaglen Datblygu Proffesiynol i Awduron o Liw** wrth i gynulleidfaoedd, cleientiaid a phartneriaid rannu eu safbwyntiau am y model cyflawni posibl.
- Mae **ymgynghori parhaus â staff** am faterion sy'n ymwneud â COVID-19 yn dal i fynd rhagddo.




Lansiwyd a hyrwyddwyd rhaglen **Tŷ Newydd** o gyrsiau rhithwir yn ystod hydref 2020.




Mewn partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru, gwahoddwyd pobl i fynegi diddordeb ym mhrosiectau cyfranogol **Geiriau ar Gynfas**.



Mae ein ffocws amlieithog yn parhau wrth i **Fardd Cenedlaethol Cymru** ymuno â beirdd o Iwerddon a'r Alban yng Ngŵyl Ffor Arall.




Dechreuodd cyfnod **ymgynghori** ffurfiol ar gyfer y **Rhaglen Datblygu Proffesiynol i Awduron o Liw.**




Cyhoeddwyd enillwyr **Gwobr Llyfr y Flwyddyn ar** BBC Radio Cymru a'r Arts Show ar BBC Radio Wales.




Darparwyd **gwersi cynganeddu yn ddigidol ac am ddim** mewn partneriaeth gyda Barddas ac o dan ofal y Prifardd, **Aneirin Karadog.**



Darparwyd prosiectau **Gwaith Comisiwn i Awduron** i gynulleidfaoedd ledled Cymru, gan gynnwys '27', sef ailgymysgiad rhyngddisgyblaethol Connor Allen.




Cyhoeddwyd galwad ar gyfer her 24 x 24 mewn partneriaeth ag Y Stamp ar **Ddiwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth.**




Cafodd prosiectau digidol **Plethu/Weave**, sy'n pontio'r celfyddydau, groeso gwresog gan gynulleidfaoedd a'r sector fel ei gilydd.

**Ein nod yw gwneud ysgrifennu creadigol yn fwy hygyrch i gyfranogwyr yng Nghymru, a chynyddu'i effaith.**

Rydym yn gwneud hyn drwy eirioli dros rym llenyddiaeth, ymwneud â chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli, a chyfeirio ein cleientiaid at ein cyfleoedd datblygu i awduron.

**Ers Ebrill 2019...**

**147,242**
Mae 147,242 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd wedi ymwneud â'n gweithgareddau

**806**
Cyfeiriwyd 806 o gyfranogwyr at ein cyfleoedd datblygu i awduron

**11.5%**
Bu 11.5% o oedolion yng Nghymru yn ymwneud â gweithgareddau ysgrifennu creadigol cyfranogol yn 2019.*

**20**
Comisiynwyd 20 o brosiectau newydd i ddifyrru, ysbrydoli ac addysgu cyfranogwyr yn ystod argyfwng COVID-19.



*Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru 2019/2020

Figures from 1 April 2019 – 30 September 2020

# Uchafbwynt: **Cyfranogi**

Mae darparu gweithgareddau cyfranogol yn hynod o anodd yn y sefyllfa sydd ohoni. Fodd bynnag, rydym wedi rhoi blaenoriaeth i'n cynulleidfaoedd a'n cyfranogwyr creadigol drwy gynnig cyfleoedd rheolaidd, hygyrch a pherthnasol iddynt ymwneud â llenyddiaeth. Er enghraifft, lansiwyd dwy rownd o **Waith Comisiwn i Awduron**, cynllun sy'n ariannu awduron i gynllunio ac arwain gweithgareddau i **ddifyrru, ysbrydoli ac addysgu cynulleidfaoedd creadigol, egin awduron, plant a chyfranogwyr** ledled Cymru. Dyma ddwy enghraifft o'r hyn sy'n cael ei gyflawni o dan y prosiect hwn:

### '27' | Connor Allen

- Gwnaeth yr awdur **Connor Allen** gais llwyddiannus i ddarparu prosiect cyfranogol digidol i bobl ifanc o gefndir Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a hwythau'n dod o gefndiroedd sydd wedi'u gwthio i'r cyrion. Roedd ei brosiect yn cynnig ailgymysgiad rhyngddisgyblaethol o waith artistig oedd wedi'i greu ganddo ef ei hun ac amryw o weithwyr creadigol ar ddechrau'u gyrfaoedd. Roedd hyn yn adlewyrchu elfennau hollbwysig yn ei fywyd y gallai'r gynulleidfa darged uniaethu â hwy. Rhoddodd Connor weithdy hefyd i gynulleidfaoedd er mwyn rhannu cyngor am anogaeth, dyfalbarhad a myfyrio drwy gyfrwng llenyddiaeth.

### 'Ymgyrch dod o hyd i asiant'

- Rhan bwysig o'n colofn gweithgaredd cyfranogi yw annog cyfranogwyr creadigol sy'n dangos potensial i archwilio a dilyn diddordeb yn y sector llenyddiaeth. Gan hynny, comisiynwyd **Julia Forster**, awdures a gweithwraig broffesiynol yn y maes llenyddiaeth, i gynhyrchu cyfres o erthyglau blog o dan y teitl: 'Ymgyrch dod o hyd i asiant'. Mae'r rhain yn rhoi arweiniad, gwybodaeth a chyngor i egin awduron yng Nghymru am y byd cyhoeddi. Bydd yr adnoddau hyn nawr yn cael eu rhoi i bob cyfranogwr sy'n awyddus i ddatblygu sgil neu yrfa, neu sy'n frwd dros ysgrifennu creadigol. O ran ein gwaith chwilio am dalent, byddwn yn monitro'n rheolaidd y traffig i negeseuon sydd wedi'u postio ac yn edrych ar ffyrdd gwahanol o ennyn diddordeb y rheini sy'n pontio'r bwlch rhwng bod yn gyfranogwyr creadigol ac yn egin awduron.

# Effaith Sefydliadol a Chanlyniadau

<table>
<tr><th></th><th>Targed ar gyfer 31 Mawrth 2021</th><th>Cynnydd Presennol<br>1 Gorffennaf– 30 Medi 2020</th><th>Dull casglu data</th></tr>
<tr><td>Effaith Sefydliadol</td><td>Byddwn ar ein ffordd i rymuso, gwella a goleuo bywydau ein cleientiaid, gan gyfrannu at eu llesiant ehangach a llesiant cymdeithas, economi a diwylliant Cymru</td><td rowspan="2">Mae’r arolwg hydredol dros dair blynedd wedi’i greu a’i anfon at sampl cynrychioladol o 10 o gleientiaid, sydd wedi’u contractio i’w gwblhau ddwywaith y flwyddyn. Mae tri chleient newydd wedi’u dewis i gymryd rhan yn Arolwg Hydredol 2020-2023, a byddwn yn ehangu’r sampl drwy gynnwys 3 chleient arall eleni.<br>Bydd y dadansoddiad nesaf o’r Arolwg Hydredol ar gael ar ôl i’r cleientiaid gwblhau arolwg#3 ym mis Tachwedd 2020.<br>Yn y cyfamser, rydym yn dal mewn cyswllt â’r sampl presennol o gleientiaid wrth iddynt barhau i ymwneud â Llenyddiaeth Cymru, sefydliadau eraill a chyfleoedd proffesiynol.</td><td rowspan="2">Arolwg Hydredol 2019-22</td></tr>
<tr><td>Canlyniadau Sefydliadol</td><td>Bydd ein cleientiaid yn nesáu at gael:<br><br>▪ Gwell sgiliau siarad ac ysgrifennu<br>▪ Mwy o hunanhyder<br>▪ Rhagor o gyfleoedd gwaith<br>▪ Llai o bobl yn teimlo'n ynysig<br>▪ Risg is o salwch meddwl, a'r gallu i wrthsefyll salwch meddwl yn well<br>▪ Cyfle i ddarganfod bydoedd, athroniaethau a diwylliannau newydd<br>▪ Gwell gallu i ddangos empathi<br>▪ Gwell sgiliau amlieithog</td></tr>
</table>

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Cyfranogi**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Chwarter 2<br>1 Gorffennaf – 30 Medi | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 30 Medi 2020 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Mae cyfran o boblogaeth Cymru sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol wedi **cynyddu 1.2 pwynt canran** o 8.2% yn 2016 i 9.4% erbyn 2021 **(**sy'n gyfwerth â **41,400 o bobl yn ychwanegol)** | Bydd Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogiad yn y celfyddydau yn 2020 yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2021. | Yn ôl adroddiad cryno Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru 2020, cymerodd **11.5% o oedolion ran mewn ysgrifennu creadigol yn 2019**. | Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogiad yn y celfyddydau |
| Mae o leiaf **110,000 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau cynulleidfa** yn ymgysylltu â'n gweithgarwch yn flynyddol, o gymharu â 82,000 yn 19/20. | Mae **45,893 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd** wedi ymwneud â'n gweithgareddau Gan fod y rhan fwyaf o'n gweithgareddau yn cael eu darparu'n ddigidol, mae'r ffigur hwn yn debygol o gynyddu wrth inni barhau i fonitro'r cyfraddau gwylio ac ymwneud. | Ers mis Ebrill, mae **64,807 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd** wedi ymwneud â'n gweithgareddau. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Mae o leiaf **34% o'n cyfranogwyr creadigol** yn arddel un neu fwy o Nodweddion ein Cleientiaid Targed, o gymharu â tua 20% yn 19/20. | Oherwydd COVID-19, **mae'r targed hwn wedi'i roi o'r neilltu dros dro.** Mae nifer o'n gweithdai wedi'u gohirio ac rydym yn dal yn y broses o greu fframwaith i gasglu data gan y rheini sy'n ymwneud â'n comisiynau digidol. . | Fel ar y chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| Mae o leiaf **450 cyfranogwr creadigol** yn cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu awduron yn flynyddol, o gymharu â 518 yn 19/20. | Mae **185 o gyfranogwyr creadigol** wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron yn y cyfnod uchod. Mae'r prosiectau comisiynau i awduron wedi denu cynulleidfaoedd newydd drwy ymgysylltu digidol. | Mae cyfanswm o **288 o gyfranogwyr creadigol** wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd a gynigir o dan y golofn gweithgaredd datblygu i awduron. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Datblygu Awduron**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Chwarter 2<br>1 Gorffennaf – 30 Medi | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 30 Medi 2020 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Rydym yn darparu o leiaf **300 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol** ar gyfer egin awduron yn flynyddol, o gymharu â 293 yn 19/20. | Rydym wedi darparu **62 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol** i egin awduron. Golygodd ein prosiect Plethu/Weave ar y cyd â Dawns Cenedlaethol Cymru fod nifer o egin feirdd wedi cael eu paru'n artistig â dawnswyr i greu ffilm greadigol. | Mae **103 o egin awduron** wedi cael cyfleoedd creadigol a phroffesiynol ers mis Ebrill 2020. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Mae ein gwybodaeth datblygu awduron ar-lein yn cael o leiaf **30,000 o ymweliadau unigryw** i'r tudalennau perthnasol yn flynyddol, mewn cymhariaeth â 35,000 yn 19/20. | Mae ein gwybodaeth ar-lein am ddatblygu awduron wedi cael ei gweld yn unigryw **7,034 o weithiau** yn y cyfnod uchod. Ers cyfnod clo COVID-19, ein pwynt glanio mwyaf poblogaidd ymhlith awduron yw'r tudalennau sy'n hyrwyddo Grwpiau a Chymdeithasau Llenyddol ledled Cymru. | Ers mis Ebrill, mae **17,987 o dudalennau wedi'u gweld** ar y rhan o'r wefan sy'n rhoi gwybodaeth am ddatblygu awduron. | Google analytics |
| Darperir cefnogaeth barhaus i gyfanswm o **80 awdur ifanc** (rhwng 16 a 30 oed) yn flynyddol, o gymharu â 140. | Mae **15 o awduron ifanc** wedi cael cefnogaeth barhaus gennym. Er enghraifft, rydym yn dal i weithio mewn partneriaeth â chydweithfa lenyddol Y Stamp. Byddant yn gyfrifol am ein Prosiect Her 100 Cerdd ar Ddiwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'w platfform a rhoi eu stamp eu hunain ar y prosiect. | Mae cyfanswm o **26 o awduron ifanc** wedi cael cefnogaeth barhaus ers mis Ebrill. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Diwylliant Llenyddol Cymru**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Chwarter 2<br>1 Gorffennaf – 30 Medi | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 30 Medi 2020 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Mae o leiaf **200 awdur profiadol** a **250 darn o waith llenyddol** yn rhan o brosiectau proffil uchel yn flynyddol, o gymharu a 250 a 244 yn 19/20. | **Mae 82 o awduron profiadol a 88 gwaith llenyddol** wedi bod yn rhan o'n prosiectau proffil uchel. Cyhoeddwyd mai *Broken Ghost* gan Niall Griffiths (Jonathan Cape) a *Babel* gan Ifan Morgan Jones (Y Lolfa) oedd prif enillwyr Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2020. | Bu cyfanswm o **115 o awduron profiadol a 125 gwaith llenyddol** yn rhan o'r prosiectau proffil uchel yn y cyfnod uchod. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Byddwn yn hwyluso ac yn cydweithio ar **o leiaf 20 partneriaeth a phrosiect cyfnewid** y tu allan i Gymru yn flynyddol, o gymharu â 21 yn 19/20. | Rydym wedi cydweithio ar **4 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid y tu allan i Gymru**. Rydym yn parhau i gryfhau ein cysylltiadau rhyngwladol ag Iwerddon a'r Alban drwy bartneriaethau fel prosiect barddonol digidol Bàrd, File, Bardd, a welodd gydweithio rhwng Bardd Cenedlaethol Cymru, y Scottish Poetry Library a Cultúrlann McAdam Ó Fiaich. | I gyd, rydym wedi hwyluso neu gydweithio ar **7 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid** y tu allan i Gymru yn y cyfnod uchod. | |
| Drwy ein hymyriad ni, mae o leiaf **35 comisiwn y flwyddyn** yn cael eu dyfarnu i awduron profiadol gan sefydliadau eraill , o gymharu a 43 yn 19/20. | Rhoddwyd **29 o gomisiynau** i awduron profiadol gan sefydliadau eraill. Er enghraifft, rhoesom gefnogaeth i drydedd rownd comisiynau prosiect addysgol CREW, a fyddai'n creu adnoddau i ddisgyblion ac athrawon gan ddilyn maes llafur CBAC. | Drwy ein hymyriadau ni, mae **52 o gomisiynau** wedi'u rhoi i awduron profiadol gan sefydliadau eraill ers mis Ebrill 2020. | |
| Mae o leiaf **24 egin awdur** yn ymgysylltu â'n cyfleoedd proffil uchel yn flynyddol, o gymharu â54 yn 19/20. | Mae **15 o awduron ar ddechrau'u gyrfaoedd** wedi bod yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel. Drwy ein rhaglen o Gyrsiau Rhithwir yn Nhŷ Newydd, cynhaliodd Alex Wharton, bardd sy'n prysur wneud enw iddo'i hun, Gwrs Blasu Digidol ym mis Awst. | Mae cyfanswm o **17 o egin awduron** wedi bod yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel. | |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Monitro a Gwerthuso**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Chwarter 2<br>1 Gorffennaf – 30 Medi | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 30 Medi 2020 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Mae **70% o'n data** o brosiectau gweithredol gweithgarwch wedi'i storio yn ein hwb monitro a gwerthuso canolog | Mae tua **70%** o'n data yn dal i fod yn cael ei storio ar ein porth monitro a gwerthuso canolog. Rydym wrthi'n gwerthuso'r ffordd orau o storio a chyfathrebu data wrth weithio o gartref. Mae'r taenlenni misol a'n cofnodion ar gyfer gwaith Hwyluso yn y Sector yn cael eu cadw ar Microsoft Teams felly bydd yr holl aelodau o staff yn gallu eu gweld a'u defnyddio pan fydd angen. | Fel ar y chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a'r arolwg Marchnata a Chyfathrebu blynyddol |
| Mae **1 Adroddiad Blynyddol** yn cyfleu ein heffaith wedi'i gylchredeg | Rydym wedi llunio ein **Hadroddiad Blynyddol 2019/2020**. Rydym yn y broses o weithio gydag ymgynghorydd cyfathrebu, dylunydd a darlunydd i greu fersiwn cyhoeddus ar gyfer ein rhanddeiliaid. | Fel ar y chwith. | |
| Cynhyrchwyd **12 adroddiad gwerthuso misol** a **4 adroddiad gwerthuso chwarterol** | Dyma **ail adroddiad gwerthuso chwarterol** 20/21. Rydym nawr wedi creu fformat syml er mwyn i'r Uwch Dîm Arwain gael adroddiad cynnydd misol yn ystod 2020/2021. Fodd bynnag, rydym yn rhoi'r cynlluniau i greu adroddiadau misol o'r neilltu dros dro, oherwydd natur anwadal cyfnod COVID-19. | Rydym wedi creu **2 adroddiad gwerthuso chwarterol** yn y cyfnod uchod. | |
| **Caiff 85% o'r prosiectau newydd neu brosiectau parhaol eu cyflwyno** i'r Uwch Dîm Rheoli, ac mae pob un yn cyfeirio at bwyntiau dysgu o'n dadansoddiad | Rydym wrthi'n **diwygio ein system ar gyfer cyflwyno syniadau** o ganlyniad i newidiadau i'n rhaglen yn sgil COVID-19. Mae staff wedi cael eu hannog i gynnig syniadau am brosiectau newydd i'r Uwch Dîm Rheoli, gyda'r nod o helpu awduron llawrydd a chymunedau yn ystod COVID-19. | Fel ar y chwith. | |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Adnoddau Dynol**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Chwarter 2<br>1 Gorffennaf – 30 Medi | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 30 Medi 2020 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Mae **100% o'r staff** wedi mynychu **dau sesiwn hyfforddi ar draws timau** | Nid oes unrhyw **sesiynau hyfforddi i dimau amrywiol** wedi'u cynnal yn y cyfnod uchod. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu cynnal diwrnod cynllunio creadigol i'r staff ym mis Tachwedd ac rydym wrthi'n edrych ar sesiynau hyfforddiant posibl i dimau. . | Mae **15% o staff** wedi bod i 1 sesiwn hyfforddi i dimau amrywiol yn y cyfnod uchod. . | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Mae o leiaf **2 aelod o staff** wedi elwa ar gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus (e.e. cyrsiau) | Mae **2 aelod o staff** wrthi'n elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus. Dewiswyd ein Swyddog Datblygu a Chyfathrebu i gymryd rhan yn rhaglen datblygu Culture Reset, ac mae ein Pennaeth Datblygu a'n Dirprwy Brif Weithredwr yn rhan o gynllun mentora i ddatblygu ein cynnig masnachol. | Fel ar y chwith. | |
| Mae lefelau boddhad staff wedi cynyddu **o leiaf 7% [RHEWYD 20/21]** | Mae'r **arolwg o les y staff** wedi'i ohirio ar hyn o bryd oherwydd COVID-19. Fodd bynnag, rydym yn blaenoriaethu lles y staff yn y cyfnod hwn ac yn rhannu adnoddau'n gyson i gefnogi'r tîm wrth i bobl weithio o gartref. | Fel ar y chwith. | Dadansoddiad o ddiwylliant y cwmni fel rhan o'r Cynllun Llesiant Staff a'r broses Adolygu Datblygiad Perfformiad |
| Mae **o leiaf 5%** o'n cyflogeion, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr yn bobl dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, mae gan **5%** anableddau, ac mae **1** o'r rhain yn uwch aelod o staff ac yn aelod o'r Bwrdd (yn ddibynnol ar fod lleoedd gwag yn codi) | Mae **12.2%** o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr yn unigolion o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac mae 3 o'r rhain mewn swyddi uwch. Mae gan **3%** o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr anableddau. | Fel ar y chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Byddwn wedi gweithio gydag o leiaf **7 gwirfoddolwr** | Rydym wedi gweithio gydag **8 gwirfoddolwr** yn y cyfnod uchod. Mae nifer o unigolion wedi gwrthod ffi ac wedi cynnig cyfrannu at ein proses ymgynghori ar sail wirfoddol o dan y Rhaglen Datblygu Proffesiynol newydd i Awduron. | Rydym wedi gweithio gyda **9 gwirfoddolwr** yn y cyfnod uchod. | |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Busnes Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Chwarter 2<br>1 Gorffennaf – 30 Medi | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 30 Medi 2020 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| **2 gais grant Ymddiriedolaethau a Sefydliadau llwyddiannus** ar gyfer cyllid tuag at waith cadwraeth, atgyweirio a chynnal a chadw yn Nhŷ Newydd | Rydym wedi gwneud cais i **5 o Ymddiriedolaethau a Sefydliadau** ar gyfer cyllid tuag at waith **cadwraeth yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**, ac rydym hefyd yn cysylltu ag Unigolion Gwerth Net Uchel a busnesau/sefydliadau sydd â diddordeb yn David Lloyd George. | Fel ar y chwith. | Ein cyfrifon chwarterol a chofnod o waith codi arian |
| **Cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd** wedi'i lansio, ac o leiaf **30** o Ffrindiau newydd yn ymuno [**RHEWYD 20/21]** | Oherwydd COVID-19 mae cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd, a fydd yn cyd-fynd â chynllun Ffrindiau Llenyddiaeth Cymru, wedi'i ohirio am y tro. | Fel ar y chwith. | |
| **Manylebau gwaith newydd** wedi'u creu gan benseiri ar gyfer gwaith adfer brys sydd ei angen ar y tŷ gwydr [**RHEWYD 20/21]** | Tra bo'r ganolfan ar gau oherwydd COVID-19, bydd oedi yn y gwaith. | | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| **Adnewyddu 2 ystafell wely** i safon uchel [**RHEWYD 20/21]** | | | |
| Mae o leiaf **85%** o fynychwyr Cyrsiau Tŷ Newydd yn cytuno bod eu hymweliad wedi'u helpu i ddatblygu fel awdur, a dywedodd **90%** y byddant yn dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol [**RHEWYD 20/21]** | Gan fod ein canolfan wedi bod ar gau dros y rhan fwyaf o'r haf i gyrsiau masnachol, byddwn yn dadansoddi ein ffurflenni monitro ar gyfer yr adroddiad sefydliadol nesaf. | Fel ar y chwith. | |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Llywodraethu ac Ymgynghori**

<table>
<tr><th>Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021</th><th>Cynnydd Chwarter 2<br>1 Gorffennaf – 30 Medi</th><th>Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 30 Medi 2020</th><th>Y dull o gasglu data</th></tr>
<tr><td>Cynnal arolwg gyda grŵp cynrychioladol o o leiaf 120 unigolyn o grwpiau rhanddeiliaid ac sy'n cynrychioli partneriaid strategol o leiaf unwaith y flwyddyn</td><td>Byddwn yn lansio ein Harolwg Rhanddeiliaid blynyddol ym mis Rhagfyr 2020 law yn llaw ag ymgyrch ‘Ein Heffaith’ ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid i gyfathrebu’r prif benawdau a geir yn Adroddiad Blynyddol 2019/2020.</td><td>Fel ar y chwith.</td><td rowspan="3">Ein hadroddiad au gwerthuso a chynnydd prosiectau</td></tr>
<tr><td>Cynnal cyfweliadau neu drafod ein gwaith gyda rhwydwaith gynrychioladol o o leiaf 18 Cyfaill Beirniadol o leiaf unwaith y flwyddyn</td><td>Rydym yn gweithio ar restr newydd o Ffrindiau Beirniadol i gysylltu â nhw ym mis Tachwedd 2020 i sicrhau ein bod yn clywed safbwyntiau ffres am elfennau o waith y sefydliad gan arbenigwyr yn y diwydiant. .</td><td>Mae 2 gyfarfod â Ffrindiau Beirniadol wedi’u cynnal yn y cyfnod uchod.</td></tr>
<tr><td>Cynnull 3 gyfarfod Grŵp Ymgynghori'r Bwrdd Rheoli, 15 cyfarfod Gweithrediadau'r Uwch Dîm Rheoli a 2 sesiwn Cynllunio Creadigol i'r holl staff yn flynyddol</td><td>Ni fu unrhyw gyfarfodydd o Grŵp Cynghori’r Bwrdd Rheoli yn y cyfnod uchod, gan fod yr un nesaf wedi’i gynllunio ar gyfer mis Tachwedd. Mae 10 o gyfarfodydd gweithredol yr Uwch Dîm Rheoli wedi’u cynnull. Mae sesiwn gynllunio ddigidol i staff amrywiol wedi’i chynllunio ar gyfer mis Hydref.</td><td>Cafodd 3 chyfarfod o Grŵp Cynghori’r Bwrdd Rheoli (Cyfarfodydd Bwrdd Argyfwng COVID-19) a 45 cyfarfod o’r Uwch Dîm Rheoli eu cynnull. Mae 0 o sesiynau cynllunio creadigol i staff amrywiol wedi’u cynnal hyd yma.</td></tr>
<tr><td>Rhannu dadansoddiad o adborth rhanddeiliaid drwy adroddiadau gwerthuso misol a chwarterol, a chyfeirio ato wrth wneud penderfyniadau</td><td>Rydym yn parhau i rannu dadansoddiadau o adborth rhanddeiliaid yn ein hadroddiadau gwerthuso chwarterol, ac rydym yn cyfeirio at hyn yn Adroddiad y Prif Weithredwr.</td><td>Fel ar y chwith.</td><td>Cynigion prosiect a chofnodion cyfarfodydd</td></tr>
</table>

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Hwyluso'r Sector**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Chwarter 2<br>1 Gorffennaf – 30 Medi | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 30 Medi 2020 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Peidio darparu mwy na **10 prosiect yn uniongyrchol bob blwyddyn** | Rydym wedi gohirio'r rhan fwyaf o'n prosiectau gweithgareddau o ganlyniad i COVID-19. Mae rhaglen newydd, wedi'i diweddaru, o weithgareddau wedi'u chreu, a bydd hon yn parhau i gael ei datblygu wrth i'n sefyllfa ariannol ddod yn gliriach yn 20/21 a 21/22. Ar hyn o bryd, mae gennym 14 o gyllidebau prosiectau gweithgareddau ar waith, ac mae **9 o'r rhain yn brosiectau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol.** | **Fel ar y chwith.** | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Cefnogi **o leiaf 30 prosiect a gaiff eu harwain gan bartneriaid** fel hwyluswyr neu bartneriaid eilaidd yn flynyddol, a chefnogi 70 arall â chefnogaeth mewn nawdd cyffredinol | Rydym wedi rhoi cefnogaeth helaeth i **4 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid**, ac wedi rhoi **cymorth cyffredinol heb fod yn ariannol i 8 prosiect** yn y cyfnod uchod. Er enghraifft, buom yn cydweithio â Phrifysgol De Cymru i ddod â grŵp o fyfyrwyr PhD Ysgrifennu Creadigol i Dŷ Newydd ym mis Awst 2020. Yn ogystal, buom yn gweithio â Barddas i gomisiynu Aneirin Karadog i greu gweithdai cynganeddu digidol i'w cynnig i gynulleidfaoedd creadigol am ddim. | I gyd, rydym wedi rhoi cefnogaeth helaeth i **7 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid**, ac wedi rhoi **cymorth cyffredinol heb fod yn ariannol i 16 prosiect arall**. | |
| Darparu cyllid a/neu gefnogaeth mewn nawdd i **o leiaf 700 o unigolion**, **grwpiau a sefydliadau** yn flynyddol | Rydym wedi darparu 126 awr o gefnogaeth a chyllid i **76 o unigolion, grwpiau a sefydliadau** yn y cyfnod uchod. Er enghraifft, mae ein Rheolwr Cyfranogi yn aelod allweddol o grŵp Artworks Cymru, sydd ar hyn o bryd yn creu Maniffesto ar gyfer y celfyddydau cyfranogol yng Nghymru. | Rydym wedi darparu cyllid i **147 o unigolion, grwpiau a sefydliadau** ers mis Ebrill 2020. | |
| Rydym wedi ysgogi **o leiaf 10** prosiect llenyddol cynaliadwy hunan-gynhaliol **mewn meysydd lle mae angen** | Mae **2 prosiect llenyddol newydd, sy'n gynaliadwy ac yn cael eu cynnal gan y bobl eu hunain**, wedi'u cyflwyno mewn ardaloedd lle mae angen ers mis Ionawr. | I gyd, mae **5 prosiect llenyddol newydd** wedi'u hysgogi mewn ardaloedd ble mae angen. | |

# Gofynion cyllido ychwanegol Cyngor Celfyddydau Cymru

## Ymwneud â'n Sector

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Chwarter 2<br>1 Gorffennaf – 30 Medi | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 30 Medi 2020 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Gweithredu fel arweinydd y sector a hwylusydd i lenyddiaeth yng Nghymru, gan weithio gydag ystod eang o bartneriaid yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. | Mae Llenyddiaeth Cymru yn **parhau i weithredu fel arweinydd yn y sector a hwylusydd** i lenyddiaeth yng Nghymru a'r tu hwnt.<br>Yn ogystal â'n cynnig hwyluso rheolaidd, mae ein haelodau o staff wedi cynrychioli'r sefydliad ar amryw o dasgluoedd sydd wedi'u sefydlu i helpu i adfer gwahanol elfennau o'r sectorau celfyddydol a diwylliannol yn ystod argyfwng COVID-19. Mae ein staff yn dal i wirfoddoli ar sail diddordebau, sgiliau a phrofiad. Yn fwy nag erioed, rydym nawr yn cyfrannu at sgyrsiau allweddol sy'n digwydd yng Nghymru a'r tu hwnt, ac mae gennym y wybodaeth ddiweddaraf am y rhain. | Fel ar y chwith. | Gwaith Hwyluso'r Sefydliad yn y Sector |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gwerthuso

## Gwersi **Sefydliadol a Gweithredol** i'w Dysgu

### Gwersi Sefydliadol i'w Dysgu
### 1 Gorffennaf – 30 Medi 2020

- Er inni ddathlu'r awduron rhagorol a oedd ar restr fer **Gwobr Llyfr y Flwyddyn,** teimlwyd hefyd bod angen inni gyhoeddi datganiad yn cydnabod y rhwystrau y mae amrywiaeth o garfannau demograffig wedi'u hwynebu ers tro byd yng Nghymru wrth geisio dilyn gyrfa ysgrifennu. Roedd ein datganiad yn amlygu ein hymdrechion parhaus i wella'r amgylchiadau hyn. Cafodd y datganiad groeso gan y sector ac awduron fel ei gilydd.

- Roedd ein **Hadroddiad Blynyddol 2019/2020** yn rhoi cyfle inni fyfyrio am ein cynnydd ers lansio ein Cynllun Strategol 2019/2022. Fodd bynnag, er bod y ddogfen hir hon yn fuddiol wrth ei defnyddio'n fewnol, roeddem yn ymwybodol bod angen inni greu fersiwn byr i'w gyflwyno i'n rhanddeiliaid. Rydym nawr yn y broses o weithio gydag ymgynghorydd cyfathrebu, dylunydd a darlunydd i ddarparu'r prosiect hwn.

- Rydym yn parhau i wahodd aelodau o staff i roi eu barn am benderfyniadau a wnawn nawr ac yn y dyfodol am **bandemig COVID-19 a'n ffyrdd o weithio.** Gofynnwyd i staff gwblhau holiadur am eu hagweddau am ddychwelyd i'r swyddfa pan fydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu bod hynny'n ddiogel, er mwyn sicrhau bod y tîm cyfan yn cyfrannu at ffyrdd newydd o weithio.

### Prosiectau Gweithredol
### 1 Gorffennaf – 30 Medi 2020

- Cafodd yr aelodau o staff a oedd â'r sgiliau a'r diddordeb perthnasol drwy'r sefydliad y dasg o adolygu ac addasu ein **Polisïau Sefydliadol** er mwyn sicrhau bod ein dulliau gweithredu yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol, strategol a moesegol. Mae hyn yn adlewyrchu ein ffordd newydd o weithio, a ddatblygwyd drwy'r Adolygiad Sefydliadol diweddar. Drwy gynnig cyfle i'r holl staff weithio ar bolisïau, gallwn gyflwyno newidiadau ffres ac arloesol, ac annog ymdeimlad cryfach o gydgyfrifoldeb.

- Gwelsom fod angen recriwtio mwy o gymorth yn ystod y cyfnodau prysur oedd i ddod, nawr ac yn y dyfodol, felly gwahoddwyd gweithwyr llawrydd i gyflwyno syniadau inni mewn **proses recriwtio agored** a oedd yn canolbwyntio ar botensial yn hytrach na phrofiad. Cawsom dros 100 o geisiadau gan amrywiaeth o unigolion drwy'r broses hon, a byddwn yn ystyried hysbysebu swyddi yn y dyfodol mewn ffordd debyg.

- Bu'n rhaid inni addasu ein **dulliau casglu data mewnol misol** i sicrhau y gallwn gael ffigurau ar gyfer prosiectau sydd wedi'u datblygu'n benodol i ymateb i bandemig COVID-19, gan allu gwahaniaethu rhwng y ffigurau hynny â rhai ein rhaglen o weithgareddau traddodiadol. Byddwn yn parhau i fonitro'r system hon er mwyn sicrhau ein bod yn cael mathau newydd o ddata (e.e. y nifer sy'n gwylio ar blatfformau digidol), sef data nad ydym wedi'u cofnodi a'u hadrodd yn swyddogol o'r blaen.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gwerthuso

## Gwersi i'w dysgu o'n **Gweithgareddau**

| Gweithgareddau | Gwersi i'w Dysgu<br>1 Gorffennaf– 30 Medi 2020 | Camau Gweithredu / Argymhellion i'r Dyfodol |
|---|---|---|
| **Plethu/Weave (Partneriaeth â Dawns Cenedlaethol Cymru)** | Roedd prosiect Plethu/Weave yn brofiad gwerthfawr inni – yn rhannol oherwydd y cyfle i weithio mor agos gyda chwmni cenedlaethol arall. Bu inni elwa o rannu arferion da â Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru ac roedd modd inni edrych ar weithgareddau rheoli prosiect, marchnata a chyfathrebu, a monitro a gwerthuso er mwyn sicrhau'r ansawdd gorau posibl i'r prosiect. | Dylai ein staff **barhau i chwilio am bartneriaethau posibl** gyda sefydliadau celfyddydol a diwylliannol amrywiol yng Nghymru a'r tu hwnt er mwyn **rhannu arferion gorau a threialu modelau cyflawni**. . |
| **Geiriau ar Gynfas (Partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru)** | Sefydlwyd panel i ddewis ymarferwyr creadigol i ddarparu gweithdy cyfranogol mewn partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru, ac i ddewis egin awdur a fyddai'n cael cysgodi yn y gweithdai. Fodd bynnag, roedd ein templedi traddodiadol y byddai paneli'n eu defnyddio i wneud penderfyniadau yn ddryslyd wrth geisio ystyried y ddau gyfle. | Mae angen inni **ddatblygu dogfen dempled sy'n effeithlon ac yn rhwydd i'w defnyddio**, a honno'n addas i aelodau o baneli mewnol ac allanol. |
| **Rhaglen Cyrsiau Rhithwir Tŷ Newydd** | Ar ôl treialu cyrsiau rhithwir, roeddem yn falch o lwyddiant ein cyrsiau digidol, gyda'r tiwtoriaid yn awduron ar amrywiol gamau yn eu gyrfaoedd. Arweiniodd y cynnig cost isel, ynghyd â chynnig arbennig i archebu ar Ddiwrnod Cenedlaethol Ysgrifennu, at gyrsiau llawn, sy'n golygu y gellir parhau â'r model cyflawni hwn yn y dyfodol. | Byddwn yn **parhau i ddefnyddio ein model cyflawni rhithwir newydd ar gyfer cyrsiau Tŷ Newydd** yn ystod ac ar ôl pandemig COVID-19 er mwyn cael ffrwd incwm ychwanegol a manteisio ar ffyrdd o gyrraedd cynulleidfaoedd yng Nghymru a'r tu hwnt. |